## Tasg 3

# Pa mor …?  Pa …?

1. Chwiliwch am yr ymadrodd **Pa mor aml**? yn y darn. Copïwch y cwestiwn yma.

Dyma enghreifftiau eraill o **pa mor** …?

Pa mor **dd**a yw'r llyfr?
Pa mor **d**al yw'r bachgen?
Pa mor **g**yflym yw'r car?
Pa mor **d**rwm yw'r bocs?

a. Beth sy'n digwydd ar ôl yr ymadrodd **Pa mor**?

b. Ysgrifennwch gwestiynau sy'n cynnwys **Pa mor** a'r ansoddeiriau hyn:
hen
heini
cyffrous
diddorol
drud

2. Chwiliwch am y cwestiynau **Pa?** yn y darn.
a. Ysgrifennwch y 4 cwestiwn isod.

Dyma enghreifftiau eraill:

| | |
|---|---|
| Pa **f**aint? | Pa **l**yfr? |
| Pa **f**achgen? | Pa **f**erch? |
| Pa **l**iwiau? | Pa **f**ocs? |

b. Beth sy'n digwydd ar ôl y gair **Pa?**

c. Ysgrifennwch ddeialog mewn siop sy'n cynnwys o leiaf 6 enghraifft o **Pa?**

ch. Actiwch / gwrandewch ar ddeialogau'ch gilydd.